GEOMÔN - GEOBARC BYD-EANG UNESCO YNYS MÔN

POLISI AMGYLCHEDDOL

Cyflwyniad

Mae GeoMôn yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo, diogelu a gwella'r amgylchedd fel rhagofyniad hanfodol, ynghyd â mesurau cymdeithasol ac economaidd, o ymgysylltu â datblygu cynaliadwy, a sicrhau ei fod yn digwydd.

I'r perwyl hwn mae GeoMôn wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn ymdrechu i **gynyddu, gwarchod neu hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r canlynol** yn ei holl weithgareddau:

- Bioamrywiaeth
- Adnoddau naturiol
- Athroniaeth a moeseg lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu
- Yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy
- Nodweddion esthetig yr amgylchedd, boed yn rhai naturiol neu adeiledig

Mae GeoMôn yn ystyried bod gweithredu i gadw neu greu amgylchedd cynaliadwy yn elfen hanfodol o weithgarwch datblygu cymunedol. Ni all unigolion a chymunedau fod â rheolaeth lawn ac ystyrlon dros eu bywydau eu hunain os nad oes ganddynt hefyd rywfaint o gyfrifoldeb a gallu i ddylanwadu ar eu hamgylchedd eu hunain. Mae GeoMôn wedi ymrwymo i weithredu mewn dull fydd yn esiampl o arfer gorau ar gyfer grwpiau eraill yr ardal. Wrth weithio gyda sefydliadau cymunedol a grwpiau gwirfoddol eraill, bydd yn eu hannog i weld eu hamcanion a'u gweithgareddau o fewn y cyd-destun ehangaf posib, ac i ddatblygu polisïau a strategaethau integredig sy'n cymryd i ystyriaeth gyd-destun cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eu gwaith.

Cyfrifoldebau: Mae'r ymrwymiad hwn yn effeithio ar bawb sy'n gweithio gyda GeoMôn gan gynnwys aelodau'r pwyllgor, staff a gwirfoddolwyr. GeoMôn fydd yn gyfrifol am weithredu'r polisi hwn.

Ymrwymiadau ac arferion gwaith penodol

Prynu a chyflenwi

• Pan fo hynny'n bosib, bydd yn prynu gwasanaethau a chynhyrchion sydd ar gael yn lleol

- Sicrhau bod yr holl bapur sy'n cael ei brynu yn cynnwys cyfran sylweddol o ddeunydd wedi'i ailgylchu (byddwn yn anelu at 100%) ac yn dod o wastraff ôl-ddefnyddwyr lle bo hynny'n bosibl
- Bydd yr holl bapur a brynir o'r radd isaf sy'n gydnaws â'r defnydd arfaethedig
- **NI** fydd GeoMôn yn prynu pren caled trofannol o ffynonellau anghynaliadwy ac yn lle hynny bydd yn ceisio defnyddio pren caled lleol (o Gymru) neu bren o ffynonellau cynaliadwy tymherus eraill
- Bydd yr holl gynhyrchion glanhau a brynir gan GeoMôn mor ecogyfeillgar â phosibl. Byddwn yn ffafrio chwistrellau pwmpio (ailddefnyddiadwy) a chynhyrchion nad ydynt yn cael eu chwistrellu (e.e. cwyr dodrefn)
- Ni wneir unrhyw ddefnydd o fawn na chynhyrchion mawn.

Yr Amgylchedd Naturiol

- Lle bo hynny'n briodol, bydd GeoMôn yn sicrhau bod arolygon ecolegol yn cael eu cynnal, a'r canlyniadau'n cael eu hymgorffori wrth gynllunio a datblygu prosiect
- Bydd GeoMôn yn gwneud y defnydd mwyaf posib o goed a phrysgwydd brodorol yn ei brosiectau ymarferol
- Bydd rheoliadau COSHH ac argymhellion Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyfer defnyddio chwynladdwyr a chemegau eraill yn cael eu dilyn
- Bydd GeoMôn yn ystyried dod yn aelod o sefydliad lleol, arbenigol sy'n gweithio i warchod a gwella'r amgylchedd lleol pan fo'r sefydliad hwnnw'n addas.

Cludiant

- Bydd GeoMôn yn annog defnyddio beiciau ar gyfer teithiau byr a thrafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer teithiau hirach
- Bydd yn gweithio tuag at leihau'r defnydd o danwydd trwy rannu cerbydau, cyfuno teithiau, cynllunio da a chynnal a chadw cerbydau'n rheolaidd
- Nid yw GeoMôn yn berchen ar gerbydau ar hyn o bryd, ond bydd yn sicrhau bod unrhyw gerbydau a brynir yn y dyfodol yn cymryd perfformiad amgylcheddol i ystyriaeth.

Ailgylchu

Bydd GeoMôn yn mabwysiadu strategaeth sylfaenol o **leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu**

- Bydd y bartneriaeth yn sefydlu systemau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod cymaint o wastraff ag sy'n bosibl yn cael ei ailgylchu gan gydnabod bod didoli ei wastraff yn ffactor allweddol wrth gyflawni hyn

Ynni

Bydd GeoMôn yn ceisio lleihau'r defnydd o ynni drwy sicrhau:

- Fod yr holl ddyfeisiau trydanol a dyfeisiadau sy'n defnyddio tanwydd yn cael eu gosod a'u rhedeg yn gywir
- Fod pob eitem drydanol newydd yn cael ei brynu ar sail ei effeithiolrwydd wrth ddefnyddio ynni lle bo hynny'n bosibl
- Ddiffodd goleuadau ac offer arall pan nad ydynt yn cael eu defnyddio
- Rhoi ystyriaeth i brynu'r trydan i gyd ar sail ei fod wedi ei gynhyrchu'n 'wyrdd'
- Wrth ystyried adnewyddu eiddo neu godi adeilad newydd bydd GeoMôn yn sicrhau bod yr offer a'r fanyleb adeiladu yn sicrhau defnydd isel o ynni.

Perthynas ag eraill

- Ni fydd GeoMôn yn ymrwymo i weithio i unrhyw grŵp, cleient neu sefydliad os oes rheswm dros gredu eu bod yn mynd ar drywydd neu'n debygol o fynd ar drywydd gweithgaredd a fydd yn achosi niwed diangen i'r amgylchedd, os nad yw'r Bartneriaeth yn debygol o allu cael dylanwad cadarnhaol ar y sefyllfa
- Bydd gan y swyddogion yr hawl i dynnu GeoMôn allan o unrhyw sefydliad na ellir ei berswadio i ymatal rhag gweithgaredd sy'n achosi difrod amgylcheddol diangen neu y gellir ei osgoi, os nad oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol neu gytundebol o wneud hynny. Pe byddai yna oblygiadau cyfreithiol neu gytundebol o dynnu'n ôl o brosiect ar y seiliau hyn, bydd y swyddogion yn rhoi gwybod ar unwaith i GeoMôn a fydd yn penderfynu pa gamau i'w cymryd er budd y polisi amgylcheddol a'i enw da
- **Contractau ag eraill:** Bydd disgwyl i unrhyw unigolyn neu sefydliad sydd wedi'i gontractio i weithio i GeoMôn gydymffurfio â pholisi.

Monitro

Bydd GeoMôn yn monitro gweithrediad y polisi hwn bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod ei arferion yn cydymffurfio â rheoliadau'r Polisi. Bydd y swyddogion yn adrodd ar unrhyw faterion o bwys sy'n codi mewn perthynas â'r polisi yn eu hadroddiadau rheolaidd i'r pwyllgor.

Maes o law, bydd GeoMôn yn ystyried gosod targedau penodol fel bod modd monitro a gwerthuso'r perfformiad o'r polisi'n fanylach.

Hyrwyddo

Bydd holl aelodau'r pwyllgor, staff a gwirfoddolwyr yn derbyn copi o'r polisi hwn ac yn dod yn gyfarwydd â'i gynnwys a'i ofynion drwy gyfnod o anwytho.

Llofnod MWood _____ Cadeirydd GeoMôn

G.J. Roberts _____ Ysgrifennydd GeoMôn

Dyddiad: 1-5-19